



# Ysgol Tryfan

9fed o Fedi 2014

Annwyl Riant / Warcheidwad

Ar ddechrau blwyddyn ysgol newydd hoffwn gyflwyno ychydig o wybodaeth i chi rieni; y rhai newydd sy'n dod atom am y tro cyntaf ym mlwyddyn 7 eleni a'r gweddiill sydd eisoes yn rhan o'n partneriaeth ni yma yn Ysgol Tryfan. Hoffwn fanteisio ar gyfle fel hyn i ddod ag ambell beth i'ch sylw.

Hoffwn ddiolch i bawb am yrru eu plant i'r ysgol hyd yma mewn gwisg ysgol briodol a thwt, ac apelïaf arnoch i sicrhau fod y safonau hyn yn cael eu cynnal trwy gydol y flwyddyn. Yn yr un modd hoffwn bwysleisio pa mor allweddol yw prydlondeb a phresenoldeb yn yr ysgol. Er mwyn cyflawni i'r eithaf yn yr ysgol mae hi'n allweddol i ddisgybl fod yn bresennol yn yr ysgol honno bob dydd – mae pob diwrnod yn cyfrif!

Eleni yn Ysgol Tryfan rydym yn gwahardd diodydd egni oddi ar dir yr ysgol. Nid ydym am ganiatáu tuniau o ddiodydd megis LSV, Red Bull, Monster ac ati o gwbl. Mae'r diodydd hyn yn gwbl amhriodol i bobl ifanc ac yn gallu effeithio'n andwyol ar eu hiechyd corfforol, eu hymddygiad a'u perfformiad deallusol. Hyderaf y cawn eich cydweithrediad llwyr fel rhieni wrth geisio hyrwyddo'r egwyddor hon o fyw'n iach. Anelwn at gael disgyblion iach o gorff ac o feddwl yma yn Ysgol Tryfan.

Erbyn hyn fe ddylech fod wedi derbyn copi o galendr Ysgol Tryfan am y flwyddyn. Dylech ofyn am gopi os nad ydych wedi ei dderbyn eisoes, neu gellir cael copi oddi ar wefan yr ysgol - yn yr adran Rhieni dan 'Llythyrau i Rieni'. Hoffwn dynnu sylw at un diwrnod pwysig yn y calendr y mis hwn sef Medi 30. Ar y prynhawn hwn byddwn yn tynnu llun o'r ysgol gyfan gyda'i gilydd; dyma achlysur sy'n digwydd pob pedair blynedd. Hoffwn hefyd gynnig un cywiriad i'r calendr - nid yw'n bosibl ail-sefyll TGAU Saesneg yng Nghymru ym mis Tachwedd eleni. Ym mis Ionawr 2015 fydd y cyfle cyntaf i fyfyrwyr blwyddyn 12 ail-sefyll TGAU Saesneg felly.

Byddwn yn cysylltu gyda chi eto'n fuan fel rhieni i fanylu ar y trefniadau o ran y Clwb Gwaith Cartref. Byddwn hefyd yn atgoffa rhieni blwyddyn 7 am y noson wybodaeth a gynhelir iddynt hwy yma yn yr ysgol ar nos Fawrth, Medi 30.

Yn olaf hoffwn hysbysu pob rhiant o'r digwyddiad mawr a fydd yn digwydd cyn diwedd y tymor hwn. Bydd Ysgol Tryfan yn perfformio sioe gerdd fawr wreiddiol yn Theatr Bryn Terfel yn Pontio ym Mangor ddechrau Rhagfyr. Mae Cyfeillion Ysgol Tryfan yn cefnogi'r cynllun cyffrous hwn ac erfyniwn arnoch fel rhieni i'n cefnogi yn ystod y tymor. Cynhelir noson o Ymryson y Beirdd yn y Tŷ Golchi nos Wener, Medi 26ain dan ofal Cyfeillion Ysgol Tryfan.

Yn gywir

Gwyn Tudur  
Pennaeth



Ysgol Tryfan  
Lôn Powys, Bangor, Gwynedd. LL57 2TU  
☎01248 352 633 ☎ 01248 361 264  
[swyddfa@tryfan.gwynedd.sch.uk](mailto:swyddfa@tryfan.gwynedd.sch.uk) [www.ysgoltryfan.org](http://www.ysgoltryfan.org)

Pennaeth/Headteacher: Gwyn Tudur

